

PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd dros fideo gynadledda ddydd Iau 10 Mehefin 2021 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Martyn Holland, Hugh Irving, Bob Murray, Paul Penlington, Arwel Roberts (Cadeirydd), Pete Prendergast, Peter Scott ac Andrew Thomas.

Roedd yr Aelod Cyfetholedig Kathleen Jones yn bresennol ar gyfer eitemau 6 a 7.

Aelodau Cabinet – roedd y Cynghorwyr Huw Hilditch-Roberts (Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd) a Julian Thompson-Hill (Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol) yn bresennol ar gyfer eitemau a oedd yn berthnasol i'w portffolios.

Arsylwyr - Y Cynghorwyr Meirick Davies, Gwyneth Kensler a Graham Timms.

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau (NS); Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata (LG); Pennaeth Addysg Dros Dro (GD); Prif Reolwr Addysg (MG); Swyddog Cynhwysiant – Gweithredu ADY (JE); Swyddog Cynhwysiant (JB); Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (KN); Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad (IM); Cydlynnydd Craffu (RE); a Swyddogion Pwyllgorau (KEJ a SJ/SW [gwe-ddarlliedwr]).

Cynrychiolwyr GwE – Mair Herbert a Jacqueline Chan yn bresennol ar gyfer eitem 6

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd David Williams a'r Aelod Addysg Cyfetholedig Neil Roberts.

2 PENODI IS-GADEIRYDD

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer Is-Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer 2021/22. Enwebwyd y Cynghorydd Hugh Irving gan y Cynghorydd Arwel Roberts. Eiliwyd yr enwebiad hwn gan y Cynghorydd Bob Murray. Ni dderbyniwyd enwebiadau eraill.

PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Hugh Irving yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer 2021/22.

Diolchodd y Cynghorydd Irving i'r aelodau am eu cefnogaeth barhaus.

3 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol ag eitemau 6 a 7 ar y rhaglen:

Y Cynghorydd Ellie Chard – Llywodraethwr yn Ysgol Tir Morfa

Y Cyngorydd Meirick Lloyd Davies – Llywodraethwr yn Ysgol Cefn Meiriadog
Y Cyngorydd Huw Hilditch-Roberts – Rhiant a Llywodraethwr yn Ysgol Pen Barras
Y Cyngorydd Hugh Irving – Llywodraethwr yn Ysgol Uwchradd Prestatyn
Y Cyngorydd Arwel Roberts – Llywodraethwr yn Ysgol y Castell
Y Cyngorydd Peter Scott – Llywodraethwr yn Ysgol Fabanod Llanelwy

4 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2021.

PENDERFYNWYD *derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2021 fel cofnod cywir.*

Ni chodwyd unrhyw fater mewn perthynas â chynnwys y cofnodion.

6 GWEITHREDU ADRODDIAD DONALDSON 'DYFODOL LLWYDDIANNUS' - CWRICWLWM CYMRU

Croesawodd y Cadeirydd y Cyngorydd Huw Hilditch-Roberts (Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd) a'r Pennaeth Addysg Dros Dro, ynghyd â Mair Herbert a Jacqueline Chan (cynrychiolwyr GwE). Mae GwE, fel y Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion, yn arwain ar ddatblygu a chefnogi ysgolion i weithredu Cwricwlwm Cymru yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Donaldson – 'Dyfodol Llwyddiannus'.

Cyflwynodd y Cyngorydd Hilditch-Roberts yr adroddiad (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) ar sut mae'r consortiwm rhanbarthol, mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol, yn cefnogi ysgolion i roi'r cwricwlwm newydd ar waith, gan fanylu ar y gwaith sylweddol sydd wedi'i wneud er mwyn darparu sicrwydd o hynny i'r Pwyllgor. Cyfeiriodd at y cwricwlwm newydd fel cam cadarnhaol ymlaen ar gyfer addysgu ac at y pedwar prif nod i helpu plant a phobl ifanc i fod yn: ddysgwyr uchelgeisiol a medrus, yn fentrus a chreadigol, yn ddinasyddion moesegol a gwybodus ac yn iach a hyderus. Amlygwyd effaith Covid-19 ar ysgolion a'u paratodau i roi'r cwricwlwm newydd ar waith, ynghyd â'r gwaith sy'n cael ei wneud ar lefelau amrywiol, o ysgolion unigol a chlystyrau i waith traws-sirol, rhanbarthol a chenedlaethol, er mwyn rhannu arfer orau. Ychwanegodd y Pennaeth Addysg Dros Dro fod y cwricwlwm newydd yn ganolbwyntio ar ganiatáu i bob plentyn ddysgu yn y ffordd sy'n gywir iddyn nhw. Mae'r gwelliant a'r gefnogaeth a gynigir i ysgolion yn ceisio cefnogi pob ymarferydd, gan ganolbwyntio ar themâu allweddol yn ymwneud ag arwain, cynllunio, gweledigaeth, addysgeg a dysgu proffesiynol. Mae gweithdai ymgynghorol wedi'u cynnal i sicrhau bod y cynnig gorau yn cael ei ddarparu i ysgolion, a chafwyd ymateb ac adborth cadarnhaol gan benaethiaid cynradd ac uwchradd sy'n awyddus i gydweithio a sicrhau cysondeb. Mae'r gwaith a wnaed gan GwE yn allweddol i sicrhau bod ysgolion yn barod i roi'r cwricwlwm newydd ar waith ym mis Medi 2022.

Mae'r ymdrechion i gefnogi ysgolion wedi'u nodi'n fanwl yn yr adroddiad ac yn cynnwys:

- Gweithio gyda chonsortia rhanbarthol eraill i ddatblygu cynnig dysgu proffesiynol cenedlaethol sy'n integreiddio pob agwedd ar y diwygiad ehangach.
- Cyfres o sesiynau hyfforddiant a dysgu proffesiynol ar draws y rhanbarth, gyda sesiynau clwstwr ar gael i ysgolion.
- Hwyluso sesiynau i ysgolion o fewn clwstwr i gydweithio i gynllunio'n strategol ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm gyda gweithgareddau i gefnogi'r paratodau hynny wedi'u nodi o fewn Cynlluniau Datblygu'r ysgolion.
- Darparu enghreifftiau o weithgareddau arfaethedig i baratoi ymhellach ar gyfer y cwricwlwm newydd, yn cynnwys datblygu gweledigaeth a rennir; gan gydweithio ar ddulliau cyffredin i addysgu a dysgu ac o fewn Maes Dysgu a Phrofiad penodol.
- Bydd cymorth ychwanegol ar gael yn ôl yr angen gan GwE i helpu ysgolion gael mynediad at gymorth pwrpasol wedi'i deilwra ar lefel clwstwr ac ysgol.
- Cymorth pellach i ysgolion ar ffurf cyfres o 'Ddarnau Meddwl' wedi'u hysgrifennu gan GwE, fel rhan o'r sesiynau wythnosol ar y diwygio gyda'r Athro Donaldson sy'n ymdrin ag agweddau allweddol ar y cwricwlwm.
- Yn barod ar gyfer mis Medi 2022, mae gwaith yn mynd rhagddo gyda phartneriaid i ddatblygu ystod eang o ddangosyddion ansoddol i ganiatáu i ysgolion fyfyrion ar sut maen nhw'n gweithredu pedwar nod y cwricwlwm newydd.
- Cyn y cyfnod clo nododd dros 90% o'r ysgolion eu bod ar y trywydd cywir o ran eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r fframwaith newydd; dywedodd bron pob ysgol eu bod ar y trywydd cywir o ran paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae'r gwaith wedi parhau ers hyn i sicrhau bod y cynnydd i weithredu'r cwricwlwm newydd ar y trywydd cywir.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, ymatebodd yr Aelod Arweiniol, y Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro a chynrychiolwyr GwE i sylwadau a chwestiynau'r aelodau:

- Rhoddwyd cydnabyddiaeth i waith a chyfrifoldebau llywodraethwyr ysgol. O ran pwysau, rhoddwyd sicrwydd bod cefnogaeth yn cael ei darparu fel y bo'n briodol gyda chyfarfodydd rheolaidd i drafod unrhyw fater neu bryder a bod perthynas wych rhwng yr ysgolion, yr awdurdod lleol a GwE. Mae'r dull a ddefnyddir yn sicrhau bod materion yn cael eu nodi a'u trin ar gam cynnar, gan atal problemau rhag gwaethygu.
- Mae chwe chlwstwr ysgol yn Sir Ddinbych (Prestatyn, y Rhyl, Dinbych, Ruthin, Llangollen a Glan Clwyd) sy'n cydweithio ac ailadroddwyd fod cymorth ychwanegol ar gael i ysgolion sy'n gweithio mewn clwstwr.
- Mae dwy ysgol wedi dod allan o fesurau arbennig yn ystod y pandemig, a chafodd y pwysau ychwanegol ar yr ysgolion hynny i wella yn erbyn argymhellion Estyn eu cydnabod. Yn ogystal â'r gefnogaeth gyffredinol a gynigir i ysgolion i roi'r cwricwlwm newydd ar waith, mae cymorth pwrpasol pellach ar gael i ysgolion unigol yn ôl yr angen.
- Er gwaethaf diffyg rheolaethau deddfwriaethol ar gyfer addysg yn y cartref, mae proses gadarn yn ei lle i gefnogi disgyblion sy'n derbyn addysg gartref; fodd

bynag, ni ellir gorfodi rheini/gofalwyr i weithredu'r cwricwlwm newydd pan fyddan nhw'n dewis cwricwlwm i'w ddilyn gartref.

- Mae addysg grefyddol yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn y cwricwlwm newydd, sy'n cynnwys crefydd, gwerthoedd a moeseg, a rhoddwyd sicrwydd bod addysg grefyddol yn cael ei chynnwys a'i diogelu.
- Fel rhan o'r paratodau dylai ysgolion gydweithio i sicrhau bod aliniad yn y broses drosglwyddo ar draws continwmm grŵp oedran 3-16 a pharhad dysgu gydag eglurder ar feysydd dysgu penodol o fewn y grwpiau oedran i sicrhau nad oes ailadrodd a bod dysgwyr yn gwneud cynnydd.
- Mae'r gyfres a'r amserlen arfaethedig ar gyfer dysgu a hyfforddiant proffesiynol ar gael yn yr adroddiad.
- Bydd ysgolion yn treialu eu cwricwlwm eu hunain a bydd cymorth yn cael ei ddarparu i werthuso hynny a bydd unrhyw addasiad angenrheidiol yn cael ei wneud cyn gweithredu'r cwricwlwm newydd yn ffurfiol fis medi 2022.
- Cadarnhawyd fod Cymwysterau Cymru yn ymgynghori ynghylch diwygio TGAU i ddod â rhywfaint o elfennau a naws y cwricwlwm newydd i'r asesiadau hynny; does dim sôn am newidiadau i Safon UG/Safon Uwch.
- Ceir 27 o ddatganiadau 'Beth sy'n Bwysig' ar draws y cwricwlwm, sy'n ddatganiadau statudol a fydd yn rhan annatod o'r fframwaith ac yn hysbysu'r darparu.
- Mae Ieithoedd Tramor Modern yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Llythrennedd a Chyfathrebu, ac hyderir y bydd ieithoedd modern yn derbyn gwell sylw a mwy o amser yn nhermau'r cwricwlwm.
- Cytunwyd bod awgrym y Cynghorydd Graham Timms yn un da o ran darparu banc o wybodaeth leol ar newid hinsawdd i ysgolion, ac adroddodd ar y llwyfannau digidol sydd eisoes yn cael eu defnyddio'n fewnol gan yr awdurdod lleol drwy'r hwb ac yn allanol ar wefan GwE fel dull o gydweithio a rhannu adnoddau er budd pob awdurdod.
- Mewn ymateb i bryderon ynghylch defnydd amhriodol o ffonau symudol mewn rhai ysgolion yn Lloegr, sicrhodd y swyddogion nad oes pryderon sylweddol yn lleol ond bod defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn faes pryder yn y sector a fydd yn parhau i gael ei fonitro'n ofalus.

Ar ddiwedd y drafodaeth diolchodd y Cadeirydd am yr adroddiad cynhwysfawr ac i'r rheiny a ymatebodd i'r materion a godwyd.

PENDERFYNWYD yn amodol ar y sylwadau uchod:

- Derbyn yr wybodaeth a geir yn yr adroddiad a'r atodiadau cysylltiedig, ynghyd â'r wybodaeth a gafwyd yn ystod y drafodaeth, ar waith sydd wedi'i wneud gan GwE mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol i gefnogi ysgolion i weithredu Cwricwlwm Cymru yn dilyn cyhoeddi adroddiad Donaldson – 'Dyfodol Llwyddiannus'; a*
- Bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad cynnydd pellach yn ystod gwanwyn 2022 sy'n manylu ar barodrwydd pob sefydliad a staff addysgol i roi'r cwricwlwm newydd ar waith fis Medi 2022.*

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd, yr adroddiad (a ddisbarthwyd ymlaen llaw) sy'n manylu ar y cynnydd sydd wedi'i wneud i sicrhau bod yr awdurdod lleol a'r ysgolion yn barod i fodloni gofynion statudol Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Bydd y Ddeddf hon, wedi'i chefnogi gan reoliadau a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn disodli Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (2002). Mae'r Ddeddf wedi disodli termau 'anghenion addysgol arbennig' (AAA) ac 'anawsterau dysgu a/neu anabledau dysgu' gyda'r term newydd 'anghenion dysgu ychwanegol' (ADY). Mae'r Ddeddf wedi creu un system gydag un cynllun statudol, y Cynllun Datblygu Unigol (CDU), a fydd yn disodli cynlluniau presennol fel Cynlluniau Addysg Unigol, Datganiadau AAA a Chynlluniau Dysgu a Sgiliau.

Amlygodd y Cynghorydd Hilditch-Roberts y gwaith ychwanegol yn sgil y Ddeddf newydd, heb unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer ei gweithredu. Canmolodd ymateb ac ymrwymiad staff a budd-ddeiliaid i fwrw ymlaen â'r gofynion angenrheidiol a rhoi plant yn gyntaf. Mae hyn, unwaith eto, yn adlewyrchu agwedd a dulliau gweithio cadarnhaol Sir Ddinbych. Eglurwyd fod y rhaglen drawsnewid ADY wedi creu system unedig i gefnogi dysgwyr 0 i 25 mlwydd oed sydd ag ADY er mwyn darparu system addysg hollol gynhwysol yng Nghymru dan bump thema allweddol. Mae disgwyl i'r system ADY newydd ddod i rym fis Medi 2021.

Tywyswyd y Pwyllgor drwy'r adroddiad a'r camau gweithredu sydd wedi'i cymryd i fodloni'r gofynion statudol newydd. Mae'r rhain yn cynnwys, yn fras:

- Rhanbarthol – mae Sir Ddinbych yn parhau i gydweithio ar draws y rhanbarth ac wedi cynhyrchu adroddiad cynnydd sy'n amlygu sut mae Sir Ddinbych yn gweithio tuag at weithredu'r diwygiadau ADY.
Mae yna weithgorau rhanbarthol amrywiol gyda Sir Ddinbych yn arwain gweithgorau Addysg Heblaw yn yr Ysgol a Phlant Sy'n Derbynn Gofal.
- Hyfforddiant – mae staff wedi cael cynnig hyfforddiant Canolbwyntio ar yr Unigolyn; mae cyfarfodydd/gweithdai wedi'u cynnal bob tymor gyda chynrychiolwyr ysgolion ac mae Tîm Trawsnewid ADY Gogledd Cymru wedi darparu hyfforddiant rhanbarthol.
Roedd yna hefyd hyfforddiant mynediad ar gyfer aelodau etholedig a budd-ddeiliaid eraill.
- Cyllidebau – mae cyllid ADY ysgolion wedi'i ddirprwyo'n llwyr i ysgolion bellach, gan weithio tuag at cyfartaledd treigl 3 blynedd i ganiatáu i ysgolion gynllunio'n fwy effeithiol.
- System TG – Mae Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam wedi dod at ei gilydd i gaffael system TG newydd (ECLIPSE) i reoli prosesau ADY newydd yn effeithiol.
- Cefnogi Dysgwyr – mae Tîm o Amgylch yr Ysgol wedi'i sefydlu er mwyn parhau i fodloni gofynion presennol y broses asesu statudol a'r Ddeddf mewn perthynas ag ymyrraeth gynnar, atal a nodi anghenion dysgu ychwanegol yn gywir a phrydlon.

- Darpariaeth – mae gwaith ar y gweill gydag ysgolion i fapio eu darpariaethau, gan gynnwys ymyraethau a strategaethau a ddefnyddir i gefnogi dysgwyr gyda a heb ADY.
Bydd hyn yn darparu gwybodaeth glir ar gyfer penderfynu ar angen a darpariaeth.
- Cynllun Datblygu Unigol (CDU) – mae'r CDU wedi'i roi ar bawf mewn ychydig o ysgolion dethol yn barod ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd; bydd y cynllun sengl yn sicrhau cysondeb a pharhad ac yn diogelu'r ddarpariaeth ac hawliau.
- Dogfennau – mae 'Proffil Dysgwr' yn cael ei ddatblygu i nodi cymorth, cynnydd a thargedau dysgwyr sydd angen cymorth wedi'i dargedu nad ydynt yn ddysgwyr ADY o reidrydd, ac mae gwaith ar y gweill gydag ysgolion i greu protocol ADY/cynhwysiant i ysgolion ei fabwysiadu.
- Paratoi Ysgolion – mae ysgolion wedi'u cefnogi gyda rôl hanfodol y Cydlynnydd ADY ac mae canllawiau wedi'u darparu.
Mae ysgolion hefyd wedi cwblhau cerrig milltir GwE (targedau canllaw i gwrdd â'r diwygiadau ADY gofynnol) a chynigiwyd cymorth i ysgolion ar gais.
- Goblygiadau Ariannol – mae'r awdurdod lleol wedi parhau i ddefnyddio'r Grant Gweddnewid ADY Rhanbarthol i'w gefnogi nhw ac ysgolion i baratoi ar gyfer diwygio ADY ac mae ysgolion hefyd wedi defnyddio cyllid clwstwr Trawsnewid ADY.

Tynnodd y Pennaeth Addysg Dros Dro sylw'r Pwyllgor at yr hunanasesiad i asesu i ba raddau mae'r awdurdod lleol yn barod, gyda system COG eglur i ddangos lefel y cydymffurfio.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol, Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Plant, y Prif Reolwr Addysg a'r Swyddog Cynhwysiant i gwestiynau'r aelodau –

- Mae llai o adnoddau ar gael i gynnal asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg, mae hyn yn fater cenedlaethol ac nid yn rhywbeth i anghenion dysgu ychwanegol yn unig; mae'r angen i fynd i'r afael â'r mater yn cael ei godi'n rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru.
- Mae cyllid ADY ysgolion wedi'i ddirprwyo i ysgolion gan weithio tuag at cyfartaledd treigl tair blynedd. Mae mapiau darpariaeth gyda chostau yn cael eu datblygu i hysbysu'r broses, a fyddai'n cael ei safoni unwaith y flwyddyn i ddarparu hyblygrwydd; mae cronfa drosiannol hefyd wedi'i chreu a bydd ceisiadau am gyllid yn cael eu derbyn petai cynnydd sydyn yn nifer y plant sydd angen cymorth ac i sicrhau bod pob plentyn yn derbyn y cymorth sydd arnyn nhw ei angen.
- Gall fod yn anodd nodi plant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref sydd ag ADY, gan nad oes gan yr awdurdod lleol unrhyw gyfrifoldeb dros eu darpariaeth. Fodd bynnag, mae yna broses fonitro yn ei lle ac mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Arweinydd Trawsnewid Rhanbarthol a phartneriaid rhanbarthol o ran effaith y Ddeddf newydd a'r cod ymarfer ADY o ran hynny.
Mae cefnogaeth wedi parhau fel y bo'n briodol i blant gydag ADY sydd wedi trosglwyddo o ysgol i addysg gartref a dan y Cod Ymarfer newydd gall rhieni, pobl ifanc a gweithwyr iechyd proffesiynol fynd at yr awdurdod lleol os ydyn nhw'n credu fod gan blentyn ADY, gydag asesiad yn cael ei gynnig wedyn.
- Cafwyd rhywfaint o drafodaeth ar oblygiadau'r ystod oedran estynedig (0 i 25 mlwydd oed) a'r gwaith a wneir i sicrhau bod lleoliadau perthnasol yn barod i

fodloni'r gofynion newydd; mae'r elfen addysg ôl 16 wedi'i ohirio tan fis Medi 2022 er mwyn rhoi mwy o amser i awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach wneud y newidiadau angenrheidiol ac mae gwaith yn parhau yn lleol ac yn rhanbarthol yn hynny o beth.

Rhodddwyd sicrwydd hefyd bod ymarferwyr Gwasanaethau Cymorth Cymunedol, sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol i oedolion, wedi bod yn rhan o'r gwaith i ddiwygio ADY o'r cychwyn cyntaf a bod gwaith ar y gweill gyda cholegau addysg oedolion arbenigol.

- Mae estyn yr ystod oedran wedi arwain at gynnydd yn llwyth gwaith y Seicolegwyr Addysg.
Roedd capasiti presennol y staff yn faes risg gyda swydd wag a oedd yn anodd ei llenwi oherwydd prinder cenedlaethol o seicolegwyr addysg a'r angen am seicolegydd addysg ychwanegol i ymgymryd â'r gwaith o ganlyniad i'r diwygiadau ADY. Roedd yna hefyd brinder cenedlaethol o Seicolegwyr lechyd a'r cyfnod aros i dderbyn diagnosis ffurfiol yn peri anawsterau wrth geisio deall anghenion plant yn iawn, a oedd wedyn yn gofyn am fwy o fewnbwn gan Seicolegydd Addysg.
- Er bod systemau cefnogi a dogfennau gwahanol ynglŷn ag ADY mewn ardaloedd gwahanol yn y DU, roedd yna weithdrefnau cadarn i drosi'r wybodaeth a'r data a ddarperir efo'r plentyn i fersiwn leol.
- Roedd perthynas waith agos iawn gyda'r Gwasanaethau lechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) i sicrhau dull clir a chydlynol i ddarparu cymorth o fewn cyd-destun lles meddyliol ac iechyd meddwl. Fodd bynnag, roedd rhestrau aros y gwasanaeth hwn wedi cynyddu ac yn arwain at rywffaint o oedi o ran diagnosis.
- Dywedwyd y bydd atodiadau 2 a 3 yr adroddiad ar gael yn Gymraeg a chadarnhawyd y bydd hyfforddiant ac adnoddau a ddarperir gan yr awdurdod lleol ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ddwyieithog. Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor unrhyw reolaeth dros ddeunydd a gynhrychir gan fudd-ddeiliaid allanol.

Wrth gloi'r drafodaeth, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau.

PENDERFYNWYD –

- (a) Yn amodol ar y sylwadau uchod, cefnogi'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol a'i ysgolion yn barod i fodloni gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 sy'n dod i rym fis Medi 2021;*
- (b) Bod y Pwyllgor wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 5), a*
- (c) Cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor yn ystod gwanwyn 2022 yn manylu ar gydymffurfiaid y Cyngor â'r gofynion statudol a nodir yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.*

Ar y pwynt hwn (11.45 am) cymerodd y pwyllgor egwyl am luniaeth.

8 ADOLYGIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2020 I 2021

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) sy'n darparu dadansoddiad chwarterol a diwedd blwyddyn o'r cynnydd wrth ddarparu'r Cynllun Corfforaethol. Mae'r adroddiad yn amlygu prosiectau penodol a chamau gweithredu ar gyfer 2021/2022. Gofynnwyd am adborth ar yr Adolygiad Perfformiad Blynyddol drafft ar gyfer 2020/2021 cyn i'r ddogfen derfynol gael ei chymeradwyo gan y Cyngor ym mis Gorffennaf.

Aethpwyd drwy'r adroddiad sydd wedi'i ymestyn i gyfuno nifer o adroddiadau a oedd yn cael eu hadrodd ar wahân yn y gorffennol, gan gwrdd â gofynion y Cyngor dan nifer o ddeddfwriaethau, gan gynnwys Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Darparodd yr adroddiad werthusiad ôl-weithredol o lwyddiant y Cyngor yn darparu yn erbyn ei gynlluniau yn ystod 2020/2021, gan edrych ymlaen i'r hyn a ellir ei ddarparu yn 2021/2022. Mae'n cynnwys naratif am gynnydd darparu ein blaenoriaethau corfforaethol, gan gynnwys y statws presennol a llwyddiant y rhaglen. Mae'r Gofrestr Prosiectau a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol hefyd i'w cael yn y ddogfen.

Darparodd Reolwr y Tîm Cynllunio Strategol ddiweddariad bras o'r cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau:

- **Tai** – mae'r cynnydd yn dda ond mae rhestr aros SARTH wedi cynyddu gyda gwaith yn mynd rhagddo i geisio deall pam ac i archwilio datrysiadau posibl ar gyfer rheoli'r rhestr aros.
Ar y cyfan, mae'r Cyngor ar y trywydd cywir i ddarparu 1000 o dai erbyn mis Mawrth 2022, ond mae'n bosibl y bydd ychydig o lithriad o ran tai cyngor oherwydd Covid-19.
- **Cysylltu Cymunedau** – mae'r maes hwn yn flaenoriaeth ar gyfer gwella, yn bennaf oherwydd cyflwr ffyrdd a isadeiledd band eang.
Fodd bynnag, mae prosiectau yn eu lle i fynd i'r afael ag isadeiledd band eang ac maen nhw'n mynd rhagddynt yn dda. Bydd prosiect isadeiledd digwyddiadau yn cael ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.
- **Cymunedau Gwydn** – mae nifer o brosiectau allweddol wedi'u cwblhau ac ar y cyfan mae cynnydd da wedi'i wneud yn erbyn y flaenoriaeth hon.
- **Yr Amgylchedd** – mae datblygiad sylweddol wedi bod o ran mabwysiadu Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol ac mae cynnydd da wedi'i wneud.
Mae'r ddarpariaeth yn erbyn yr amserlen o ran arbed ynni mewn cartrefi cyngor yn parhau i fod yn heriol oherwydd cyfyngiadau Covid-19, ond mae'r gwaith yn dal yn yr arfaeth ac mae cynllun yn ei le i'w ddarparu.
- **Pobl Ifanc** – mae effaith Covid-19 wedi bod yn un sylweddol ac mae'n parhaus, felly mae'n anodd dod i gasgliadau o ran yr effaith ar addysg plant a'u cyrhaeddiad posibl yn y dyfodol.
Mae lefel y diweithdra ymhlith pobl ifanc hefyd wedi cynyddu oherwydd Covid-19 ac mae'n faes sy'n peri pryder. Fodd bynnag, mae nifer o ymyraethau yn eu lle i fynd i'r afael â hyn.

Eglurodd yr Aelod Arweiniol bod modd cymharu'r diffiniadau mesur perfformiad â data awdurdodau lleol eraill. Er bod lle i wella rhai meysydd blaenoriaeth rhoddwyd sicrwydd nad ydi hynny o reidrwydd yn golygu bod lefelau perfformiad yn wael ond bod perfformiad Sir Ddinbych yn is na'r canolrif o gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

Darparodd Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad drosolwg o'r adran iechyd corfforaethol newydd sydd yn yr adroddiad er mwyn bodloni'r gofynion i hunanasesu dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'n canolbwyntio ar saith maes llywodraethu allweddol ac yn darparu darlun ehangach o'r cyd-destun y mae'r Cyngor yn gweithredu oddi yno wrth gyflawni ei amcanion perfformiad. Mae hefyd yn ceisio nodi camau allweddol i wella perfformiad i'r dyfodol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i ofyn cwestiynau a thrafod gwahanol agweddau ar yr adroddiad gyda'r Aelod Arweiniol a'r swyddogion. Roedd prif feysydd y drafod yn canolbwyntio ar y canlynol -

- Mae sefyllfa derfynol cyllidebau corfforaethol a gwasanaeth 2020/21 yn danwariant o £9.457 miliwn.
Mae hyn yn cynnwys tanwariant ysgolion o £7.058 miliwn, yn bennaf oherwydd bod yr ysgolion wedi bod ar gau yn ystod cyfnodau clo a rhywfaint o gyllid grant hwyr gan Lywodraeth Cymru. Mae'r balans sy'n weddill yn bennaf yn wariant hwyr gan wasanaethau o ganlyniad i'r pandemig.
- Mae'r adroddiad yn cynnwys crynodeb lefel uchel o wariant a'r sefyllfa derfynol, ac eglurwyd yr effaith ar wasanaethau ymhellach.
Cytunodd yr Aelod Arweiniol i ddarparu dadansoddiad manwl o gostau'r Gwasanaethau Prifffyrdd, Cyfleusterau ac Amgylcheddol a chostau Addysg a Gwasanaethau Pant i'r Cynghorydd Paul Penlington y tu allan i'r cyfarfod. O ran sefyllfa well yr ysgolion, rhoddwyd sicrwydd y bydd ysgolion yn cael cadw'r tanwariant.
- Ymhelaethwyd ar sefyllfa Hamdden Sir Ddinbych Cyf, a sefydlwyd fel cwmni ar ei ben ei hun ar 1 Ebrill 2020, ac effaith y pandemig ar fasnach – mae bron yr holl incwm a fyddai wedi'i dderbyn gan Hamdden Sir Ddinbych mewn blwyddyn arferol wedi'i hawlio'n ôl gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i pheccyn ariannu.
- Dywedodd y Cynghorydd Martyn Holland fod yr adroddiad hefyd wedi'i ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a oedd hefyd yn gyfle i nodi unrhyw faes a all fod angen ymateb neu graffu pellach.
Amlygodd (1) y cynnig i dynnu mesurau yn ymwneud â ffyrdd C a ffyrdd annosbarthedig o'r fframwaith, a (2) y broses gaffael aflwyddiannus mewn perthynas â Thai Gofal Ychwanegol Rhuthun oherwydd problemau posibl yn ymwneud â'r amodau.
- Mae'r gofyniad i ddarparu 20% o dai'r datblygiad wrth ymyl Ysgol Pendref yn dai fforddiadwy (dwbl y 10% a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol) yn seiliedig ar brawf ar y farchnad.
- Cadarnhawyd fod y cyfeiriad at 'nifer y llyfrau Cymraeg a fenthycwyd y pen' (Gwasanaethau Llyfrgell, tudalen 46) yn cyfeirio at lyfrau a gyhoeddwyd yn y Gymraeg.
- Amlygodd y Cadeirydd mai dim ond 42% o'r preswlydd oedd yn fodlon ar argaeledd tai yn eu hardal a bod nifer y bobl ar restr aros SARTH wedi cynyddu.

Cadarnhaodd Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata fod hwn yn destun pryder a'i fod yn faes sy'n derbyn sylw pellach, a chroesawodd y cyfle i adrodd yn ôl i gyfarfod craffu yn y dyfodol.

- Disgwylir y bydd y data perfformiad ym mis Mehefin, yn ymwneud â mesurau amrywiol, ar gael mewn pryd i'w cynnwys yn y ddogfen derfynol fydd yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor ym mis Gorffennaf.
- Cadarnhawyd nad oes costau ychwanegol ynghlwm wrth greu'r adroddiad, ac eithrio amser swyddogion fel rhan o'r broses arferol.
- Mewn perthynas â'r angen o ran tai, mae lleoliad tai cyngor yn cael ei sbarduno'n bennaf gan y Cynllun Datblygu Lleol a'r asesiad o anghenion tai, gyda thai cymdeithasol yn cael eu codi yn y mannau lle mae'r angen mwyaf – yn anffodus nid yw'n bosibl cwrdd â'r holl alw yn y sir.
- O ran y rhaglen plannu coed ar gyfer cymunedau difreintiedig, mai perllan gymunedol wedi'i chreu yn Ninbych ac mae cynlluniau i'w datblygu ymhellach. Cafwyd anawsterau yn Ninbych Uchaf i ganfod tir addas i blannu mwy o goed; mae'r Gwasanaethau Cefn Gwlad wedi ceisio datrys y broblem yma drwy addasu mannau awyr agored yn leoliadau plannu coed ac felly mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r heriau.

Ar ddiwedd y drafodaeth:-

PENDERFYNWYD, yn amodol ar y sylwadau a amlinellir uchod, cadarnhau'r wybodaeth a geir ar berfformiad y Cyngor yn ystod 2020/21 a'r prosiectau i'w cyflawni yn 2021/22 fel yr amlinellir yn yr adroddiad Adolygu Perfformiad Blynyddol.

9 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (a ddisbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r Aelodau adolygu Rhaglen Waith y Pwyllgor ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â materion perthnasol.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y materion canlynol:

- Cymeradwywyd y cais i symud y Cynllun Teithio Cynaliadwy Drafft o fis Gorffennaf i fis Tachwedd a bod cyfarfod mis Gorffennaf yn cynnwys Adroddiad Blynyddol 2019/20 a 2020/21 Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fel y prif eitem fusnes
- Gofynnwyd i'r aelodau gyflwyno ffurflenni cynnig testunau ar gyfer y Pwyllgor Craffu (gan gynnwys y testunau a nodwyd yn gynharach wrth ystyried yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol) erbyn diwedd yr wythnos nesaf er mwyn eu cyflwyno i gyfarfod nesaf Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu ar 1 Gorffennaf
- Ailddatganwyd fod angen cyflwyno adroddiadau cynnydd i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2022, fel y cytunwyd yn gynharach yn ystod y cyfarfod mewn perthynas â Chwricwlwm Cymru a Thrawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Gofynnwyd am enghreifftiau o gwynion yn ogystal â chanmoliaethau mewn adroddiadau gwybodaeth i'r Pwyllgor
- Mae'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi ystyried manteision ac ymarferoldeb briffiau rhag-gyfarfodydd.

Penderfynwyd y byddai Cadeirydd ac Is-Gadeirydd pob pwyllgor yn penderfynu, fesul cyfarfod, pa un ai oes angen rhag-gyfarfod ar gyfer yr aelodau neu beidio. Os yw aelod pwyllgor yn credu y byddai rhag-gyfarfod yn fuddiol ar gyfer cyfarfod penodol yna fe ddylai gyflwyno cais i'r Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar y diwygiadau uchod, cymeradwyo rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor fel ag y mae yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cynrychioli'r Pwyllgor yn ddiweddar yn y grwpiau/fforymau canlynol:

- Cyfarfod Herio Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd.
Roedd hwn yn gyfarfod cadarnhaol iawn a amlygodd sut mae'r holl adrannau o fewn y gwasanaeth cymorth hwn wedi addasu yn ystod argyfwng Covid-19 er mwyn darparu eu gwasanaethau mewn ffyrdd newydd ac arloesol yn ogystal â chefnogi gwasanaethau rheng flaen i ddarparu eu gwasanaethau hwy
- Grŵp Buddsoddi Strategol, lle trafodwyd nifer o brosiectau buddsoddiad cyfalaf
- Cyfarfod gydag Estyn, a oedd hefyd yn cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau.
Roedd y rheoleiddiwr yn archwilio effeithiolrwydd Gwasanaeth Addysg y Sir a phrosesau craffu'r Cyngor

Dywedodd y Cynghorydd Ellie Chard y bydd yn cynrychioli'r Pwyllgor yn ystod cyfarfod Her Gwasanaeth ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Plant ar 19 Gorffennaf.

PENDERFYNWYD derbyn a chofnodi'r adroddiad ar lafar.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.50 pm.